# Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

**Heol y Bardd, Porth Tywyn,**
**Sir Gaerfyrddin SA16 0NL**
**Ffôn:- 01554 832101**
**Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru**
**www.ysgolparcytywyn.co.uk**
**Pennaeth / Headteacher : Mr C Davies**

19/03/2020

## Coronafeirws – Cau Ysgolion

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Mae'n siŵr eich bod wedi deall erbyn hyn bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud y penderfyniad i gau ysgolion o ganlyniad i effaith y Coronafeirws. Byddwn yn parhau ar agor tan 3.20pm ar Ddydd Gwener, Mawrth 20fed. Mae'r Llywodraeth yn mynd i adolygu'r sefyllfa'n gyson a byddwn yn cyfathrebu'n gyson â chi drwy wefan yr ysgol www.ysgolparcytywyn.co.uk, trwy ein cyfrif Trydar @ParcyTywyn a trwy 'TheSchoolApp' wrth i fwy o wybodaeth ein cyrraedd. **Mae'n hanfodol bod pawb yn lawrlwytho'r ap er mwyn derbyn y gwybodaeth diweddaraf.**



Dyma gyhoeddiad y Gweinidog Addysg ar y mater: https://gov.wales/statement-minster-education-kirsty-williams-school-closures-wales

Mae'n debygol iawn y bydd hwn yn gyfnod estynedig fydd yn effeithio ar ein bywyd dydd i ddydd ar bob lefel. Gwerthfawrogwn fod yn adeg o bryder ac anhyfleustra i chi fel rhieni ond mae lles y plant a phawb yng nghymuned yr ysgol yn holl bwysig i ni. O ganlyniad, mae'r athrawon eisoes wedi bod yn cynllunio ar gyfer y sefyllfa yma ac wedi paratoi pecynnau gwaith er mwyn parhau i roi addysg i'r plant yn ystod y cyfnod o darfiad. Mae cyfres o weithgareddau addysgol amrywiol ar gael i chi trwy wefan yr ysgol https://www.ysgolparcytywyn.co.uk/dosbarthiadauclass-pages/ Mae amserlen enghreifftiol ar gael ar y wefan os oes angen syniadau arnoch chi ar sut i strwythuro'ch dyddiau.

Mae'r ysgol wedi darparu llyfr gwaith gwag i blant Dosbarth Derbyn hyd Flwyddyn 6 heddiw. Does dim angen printio taflenni gwaith. Gall plant gofnodi gwaith / atebion yn y llyfrau neu gallent wneud y gwaith trwy ei cyfrif HWB. (https://hwb.gov.wales/) Cofiwch nad oes angen poeni am y gwaith; maen cael eu darparu fel syniad.

Mae hwn yn amser pryderus i bawb, a bydd ein plant yn gallu ei deimlo. Anaml y bydd ceisio gorfodi eich plant i "ddysgu" yn gweithio ac mae dadlau ac ymladd yn eu herbyn i wneud hynny yn debygol o wneud sefyllfa sydd eisoes dan straen yn waeth o lawer. Darllenwch iddyn nhw. Canwch a dawnsiwch gyda nhw. Chwaraewch gemau gyda nhw. Byddwch yn greadigol! Byddant yn cofio hyn fel amser hwyliog, yn hytrach nag un ofydus.

Os oes gan plant Blwyddyn 3 - 6 unrhyw gwestiwn neu unrhyw bryderon gallent gysylltu â'u hathro dosbarth trwy wefan SpeakR ar www.669.speakr.co.uk. Bydd yr athrawon dosbarth hynny hefyd yn cysylltu gyda plant i gadw mewn cysylltiad.

Mae'r Cyngor yn cwblhau eu cynlluniau i gefnogi'r rhai mwyaf anghenus, gan gynnwys pobl sy'n ymwneud â'r ymateb i'r achosion Coronavirus yn unol â chyfarwyddyd Gweinidog Cymru, Kirsty Williams. Byddwn yn anfon y wybodaeth hon ymlaen maes o law.

Rwy'n hyderus bod modd i ni ddelio gyda'r sefyllfa eithraidol yma, drwy arddangos undod, cefnogi ein gilydd a chydweithio fel un gymuned. Cymeraf y cyfle i ddiolch i chi yn ddiffuant am bob arwydd o gefnogaeth. Cofiwch gysylltu gyda mi os ydych chi angen unrhyw arweiniad pellach.

***Mr C Davies***
*Pennaeth*